**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1323 (Cy.101)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu ac yn disodli rheoliad 10 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach) 1981 mewn perthynas â Chymru yn unig.

Mae Rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol.

Mae Rheoliad 4 yn darparu na cheir trin mwy na chwe sesiwn ysgol a neilltuwyd ar gyfer hyfforddi athrawon mewn gwerthuso athrawon ysgol, system dâl athrawon ysgol neu strwythurau staffio ysgol yn ystod y cyfnod 1 Mai 2000 i 31 Gorffennaf 2001 fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol. Pan neilltuir mwy na phedair sesiwn ysgol i hyfforddiant o'r fath yn ystod y cyfnod hwnnw rhaid i o leiaf ddwy fod yn y flwyddyn ysgol 2000-2001.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1323 (W.101)

# EDUCATION, WALES

## The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations revoke and replace regulation 10 of the Education (Schools and Further Education) Regulations 1981 in relation to Wales only.

Regulation 3 makes provision about the length of the school day and the school year.

Regulation 4 provides that not more than six school sessions devoted to the training of teachers in school teachers' appraisal, the school teachers' pay system or school staffing structures during the period 1st May 2000 to 31st July 2001 may be treated as sessions on which the school has met. Where more than four school sessions are devoted to such training during that period at least two must be in the 2000-2001 school year.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1323 (Cy.101)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *19 Ebrill 2000* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mai 2000* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996**(a)** ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)** mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**1.-**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Mai 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Drwy hyn diddymir rheoliad 10 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach) 1981**(c)**.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "dosbarth meithrin" ("*nursery class*") yw dosbarth sydd wrthi yn bennaf yn darparu addysg amser-llawn neu ran-amser sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;

ystyr "y flwyddyn ysgol" ("*school year*") yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl Gorffennaf ac sy'n diweddu gyda dechrau'r tymor ysgol cyntaf sy'n dechrau ar ôl y Gorffennaf canlynol; ac

ystyr "ysgol" ("*school*") yw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, neu ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal gan awdurdod addysg lleol.

(a) 1996 p.56; mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Am ystyr "regulations" *gweler* adrani 579(1).

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1981/1086; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1987/879, 1990/2259 a 1998/2792.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1323 (W.101)

# EDUCATION, WALES

## The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *19th April 2000* |
| *Coming into force* | *1st May 2000* |

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 551 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996**(a)** and now vested in the National Assembly for Wales**(b)** the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**1.-**(1) These Regulations may be cited as the Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st May 2000.

(2) These Regulations apply only to Wales.

(3) Regulation 10 of the Education (Schools and Further Education) Regulations 1981**(c)** is hereby revoked.

**2.** In these Regulations -

"nursery class" ("*dosbarth meithrin*") means a class predominantly engaged in the provision of full-time or part-time education suitable for children who have not attained compulsory school age;

"school" ("*ysgol*") means a school maintained by a local education authority, or a special school not maintained by a local education authority; and

"school year" ("*y flwyddyn ysgol*") means the period beginning with the first school term to begin after July and ending with the beginning of the first such term to

(a) 1996 c.56; section 551(1A) was inserted by paragraph 39 of Schedule 7 to the Education Act 1997 (c.44), section 551(2) was amended by paragraph 166 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). For the meaning of "regulations" *see* section 579(1).

(b) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). (c) S.I. 1981/1086; the relevant amending instruments are S.I. 1987/879, 1990/2259 and 1998/2792.

**3.-**(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhennir pob diwrnod y mae ysgol yn cyfarfod yn ddwy sesiwn a wahenir gan egwyl yng nghanol y dydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn peri nad yw hyn yn ddymunol.

(2) Rhaid cynnal o leiaf 380 o sesiynau mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol ond er hynny nid oes dim yn y paragraff hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddosbarth meithrin gyfarfod am y nifer hwnnw o sesiynau.

(3) Pan rwystrir ysgol ar unrhyw adeg rhag cyfarfod am un neu fwy o sesiynau y bwriadwyd iddi gyfarfod, ac nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud trefniadau iddi gyfarfod ar adeg wahanol ar gyfer y sesiynau hynny, ymdrinnir â'r ysgol at ddibenion paragraff (2) fel pe bai wedi cyfarfod yn unol â'r bwriad.

(4) Ar bob diwrnod y bydd ysgol feithrin neu ddosbarth meithrin yn cyfarfod rhaid darparu o leiaf deirawr o weithgareddau addas:

Ar yr amod y bydd yn ddigonol darparu gweithgareddau addas am awr a hanner i ddisgybl ar ddiwrnod pan fydd y disgybl-

(a) yn bresennol mewn ysgol feithrin neu ddosbarth meithrin sy'n cyfarfod am un sesiwn yn unig; neu

(b) yn bresennol mewn ysgol feithrin neu ddosbarth meithrin am un sesiwn yn unig allan o ddwy sesiwn.

(5) Mewn ysgol sy'n cyfarfod ar chwe diwrnod o'r wythnos gall fod ar ddau o'r dyddiau hynny un sesiwn yn unig.

**4.-**(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fydd sesiwn ysgol yn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Mai 2000 ac yn gorffen ar 31 Gorffennaf 2001 wedi'i neilltuo yn llwyr neu yn bennaf i ddarparu hyfforddiant y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ar gyfer athrawon a gyflogir yn yr ysgol honno, ymdrinnir â'r sesiwn honno at ddibenion rheoliad 3 fel pe bai'n sesiwn pan gyfarfu'r ysgol honno.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys i hyfforddiant sy'n ymwneud â gwerthuso athrawon ysgol, system dâl athrawon ysgol neu strwythurau staffio ysgol.

(3) Mae paragraff (1) yn effeithiol mewn perthynas â chyfanswm o chwe sesiwn ysgol yn unig, a phan fydd mwy na phedair sesiwn ysgol wedi'u neilltuo yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn y paragraff hwnnw yn llwyr neu yn bennaf i ddarparu hyfforddiant y mae'r paragraff hwnnw'n gymwys iddo ar gyfer athrawon yn yr ysgol, y mae'n rhaid i ddwy o'r sesiynau hynny o leiaf fod yn y flwyddyn ysgol 2000-2001.

begin after the following July.

**3.-**(1) Subject to paragraph (5), every day on which a school meets shall be divided into two sessions which shall be separated by a break in the middle of the day unless exceptional circumstances make this undesirable.

(2) At least 380 sessions shall be held at a school during any school year so however that nothing in this paragraph shall require a nursery class to meet for that number of sessions.

(3) Where at any time a school is prevented from meeting for one or more sessions for which it was intended that it should meet, and it is not reasonably practicable for arrangements to be made for it to meet at an alternative time for those sessions, the school shall be treated for the purposes of paragraph (2) as if it had met as intended.

(4) On every day on which a nursery school or nursery class meets there shall be provided at least three hours of suitable activities:

Provided that on a day on which a pupil -

(a) attends a nursery school or nursery class which meets for only a single session; or

(b) attends a nursery school or nursery class for one only of two sessions,

it shall be sufficient to provide the pupil with one and a half hours of suitable activities.

(5) In a school which meets on six days a week there may on two of those days be only a single session.

**4.-**(1) Subject to paragraph (3), where a school session in the period beginning on 1st May 2000 and ending on 31st July 2001 is devoted wholly or mainly to the provision to teachers employed at that school of training to which this paragraph applies, that session shall be regarded for the purposes of regulation 3 as a session on which that school has met.

(2) Paragraph (1) applies to training related to the appraisal of school teachers, the school teachers' pay system or school staffing structures.

(3) Paragraph (1) has effect only in relation to six school sessions in total, and where during the period mentioned in that paragraph more than four school sessions are devoted wholly or mainly to the provision to teachers at the school of training to which that paragraph applies, at least two of those sessions must be in the 2000-2001 school year.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(a)**.

19 Ebrill 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**.

19th April 2000

*D. Elis Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1323 (Cy.101)

# ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2000

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1323 (W.101)

# EDUCATION, WALES

The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2000

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090092-8

9 780110 900926

**£2.00**

WO6132 07/00 ON